**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

## Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020.

**Vaughan Gething**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

14 Hydref 2020

**Memorandwm Esboniadol**

## 1. Disgrifiad

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio'r wybodaeth sy'n ofynnol i'w rhoi i deithwyr sy'n teithio i Gymru gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) 2020 ("y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr").

Cyflwynodd y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr ofynion i weithredwyr gwasanaethau teithwyr rhyngwladol awyr a môr ("gweithredwyr") roi gwybodaeth i'w teithwyr am y coronafeirws a materion cysylltiedig (fel y ddyletswydd i hunanynysu wrth ddod i Gymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin), yn ogystal â gwybodaeth am ganllawiau iechyd y cyhoedd. Daeth y gofynion hyn i rym ar 17 Mehefin 2020.

Diwygiwyd y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd i Deithwyr) (Cymru) (Diwygio) 2020 er mwyn:

- gwneud cynnwys y datganiad iechyd cyhoeddus a gyflwynir i deithwyr yn ystod eu taith yn gyson ar draws y DU;
- dileu'r gofyniad i'r datganiad gael ei wneud ar lafar, er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i weithredwyr o ran sut y caiff y datganiad ei gyflwyno;
- newid cyfnod yr adolygiad ar gyfer y Rheoliadau o bob 21 diwrnod i bob 28 diwrnod, gan ddechrau ar 23 Gorffennaf 2020.

Daeth y diwygiadau hyn i rym ar 10 Gorffennaf 2020.

Mae Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Gwybodaeth Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Personau sy'n Teithio i Gymru etc.) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yn rhan o gyfres o ddiwygiadau rheoleiddiol sy'n cael eu gwneud gan bob un o 4 gwlad y DU i'r wybodaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei rhoi i deithwyr sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin. Maent yn diwygio'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr ymhellach er mwyn:

- darparu testun yr wybodaeth y mae'n rhaid i weithredwyr gwasanaethau teithio rhyngwladol ei rhoi i deithwyr yn ystod y camau archebu a chofrestru (check in), a rhagnodi dolenni gwe i dudalennau gwe perthnasol y llywodraeth (yn flaenorol, ni ragnodwyd union eiriad y wybodaeth hon ond y gweithredwr oedd i benderfynu);

- ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu gwybodaeth i bob teithiwr rhwng 24 a 48 awr cyn teithio i Gymru - gan gynnwys dolenni i dudalennau gwe perthnasol y llywodraeth;

- diweddaru'r datganiad ar fwrdd y cerbyd y mae'n rhaid ei gyflwyno yn ystod y daith i'r DU.

## 2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

## 3. Cefndir deddfwriaethol

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan ddefnyddio pwerau a geir yn adrannau 45B(1), 45F(2) a 45P(2) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 ("Deddf 1984").

Mae Deddf 1984 a'r Rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf honno yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu iechyd yng Nghymru a Lloegr. Mewnosodwyd Rhan 2A o Ddeddf 1984 gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008, ac mae'n darparu sail gyfreithiol i ddiogelu'r cyhoedd rhag bygythiadau sy'n deillio o glefydau heintus.

Mae Adran 45B o Ddeddf 1984 yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau diogelu iechyd sy'n ymwneud â theithio rhyngwladol ac ati. O dan adran 45B(1)(a), caiff y Gweinidog priodol drwy reoliadau wneud darpariaeth ar gyfer atal perygl i iechyd y cyhoedd rhag gychod a llongau, awyrennau, trenau neu gerbydau eraill sy'n cyrraedd unrhyw le. Mae adran 45B(2)(e) yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 45B(1) gynnwys darpariaeth sy'n gwahardd neu'n rheoleiddio dyfodiad neu ymadawiad cerbydau a mynediad neu ymadawiad personau neu bethau. Mae adran 45B(2)(g) yn darparu y caiff rheoliadau o dan adran 45B(1) gynnwys darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau ddarparu gwybodaeth neu ateb cwestiynau (gan gynnwys gwybodaeth neu gwestiynau sy'n ymwneud â'u hiechyd).

Mae adran 45F o Ddeddf 1984 yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 45B greu troseddau a darparu ar gyfer gweithredu a gorfodi cyfyngiadau a gofynion a osodir gan neu o dan y rheoliadau. Mae gweithredwr yn cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau os yw'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu. Mae adran 45F(2)(a) yn cynnwys darpariaeth atodol sy'n ymwneud â rheoliadau a wneir o dan adran 45B; mae'n darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan adran 45B roi swyddogaethau i bersonau. Rhoddir swyddogaethau sy'n berthnasol i fonitro cydymffurfiaeth a gorfodi'r gofynion i bersonau awdurdodedig.

Rhoddir y pwerau o dan yr adrannau hyn i'r "Gweinidog priodol". O dan adran 45T(6) o Ddeddf 1984, ystyr Gweinidog priodol, mewn perthynas â Chymru, yw Gweinidogion Cymru.

<u>Dod i rym</u>

Mae'r Rheoliadau Diwygio hyn yn ddarostyngedig i gael eu dirymu gan Senedd Cymru (y 'weithdrefn negyddol').

Dônt i rym ar 4 Tachwedd 2020.

<u>Dull gweithredu ledled y DU</u>

Er bod Llywodraeth y DU yn arwain y polisi ar y cyd ar gyfer teithio rhyngwladol, mae'n cydweithio â'r Llywodraethau Datganoledig ac mae wedi datblygu dull unedig o weithredu ar draws y DU. O ganlyniad, mae gan Lywodraethau pob un o'r 4 gwlad ddeddfwriaeth gyfatebol i'r Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr.

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn rhan o gyfres o newidiadau rheoleiddiol sy'n cael eu gwneud gan bob un o'r 4 gwlad i'r wybodaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei rhoi i deithwyr sy'n cyrraedd o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin.

## 4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Cyflwynwyd y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr i sicrhau mai dim ond y personau hynny a oedd yn barod i gydymffurfio ac yn gallu cydymffurfio â'r gofynion perthnasol a'r canllawiau iechyd cyhoeddus a gwblhaodd eu taith i Gymru.

Erbyn iddynt gyrraedd, dylai teithwyr fod wedi cael yr wybodaeth ddiweddaraf fel eu bod yn gwybod beth sy'n ofynnol ganddynt yn syth ar ôl cyrraedd. Bydd sicrhau bod gan bobl sy'n dod i Gymru y gofynion a'r canllawiau hyn, a'u bod yn gallu cydymffurfio â nhw, yn helpu i leihau'r broses o drosglwyddo SARS-CoV-2 a thrwy hynny atal perygl i iechyd y cyhoedd o awyrennau a chychod a llongau sy'n cyrraedd Cymru o'r tu allan i'r Ardal Deithio Gyffredin.

Gall y rhai nad ydynt yn gallu cydymffurfio neu sy'n amharod i gydymffurfio â'r gofynion hyn ddewis peidio â theithio.

Fodd bynnag, mae pryderon bod rhai gweithredwyr yn methu â chyfleu'r wybodaeth ofynnol yn glir i deithwyr wrth archebu a chofrestru. Yn hytrach, gall y wybodaeth a roddir fod yn aneglur nac yn ddryslyd.

Yn ogystal, mae rhai teithwyr yn cyrraedd Cymru heb gwblhau Ffurflenni Lleoli Teithwyr, yn enwedig pan fônt yn dychwelyd o wledydd sy'n rhannu “Coridor Teithio” â Chymru.

Mae pryderon hefyd bod angen sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol y gallai'r gwledydd hynny sy'n rhannu “Coridor Teithio” â Chymru newid yn gyflym. O ganlyniad, efallai y bydd yn ofynnol i deithwyr hunanynysu ar ôl dychwelyd i Gymru, er nad oedd hyn o bosibl yn ofyniad pan trefnwyd y daith yn wreiddiol neu pan wnaed y daith allanol.

Er mwyn sicrhau bod pob teithiwr yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt am ofynion perthnasol a chanllawiau iechyd y cyhoedd fel y gallant wneud dewis gwybodus ynghylch a ddylid teithio i Gymru ai peidio, mae'r Rheoliadau Diwygio hyn yn gosod darpariaethau newydd yn y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr:

a) <u>Archebu</u>

Mae'r darpariaethau newydd yn rhagnodi union eiriad yr wybodaeth y mae'n rhaid i weithredwyr ei rhoi i deithwyr cyn cwblhau archeb. Wrth archebu drwy wefan gweithredwr neu ap ar ddyfais symudol, rhaid i'r wybodaeth hon gynnwys dolenni i'r tudalennau gwe canlynol:

i. www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk
ii. www.gov.uk/uk-border-control.

Ceir dolenni at gyngor iechyd cyhoeddus pob gwlad o www.gov.uk/uk-border-control; i Gymru, bydd hwn yn ddolen i https://llyw.cymru/coronafeirws.

Pan fo archeb yn cael ei gwneud dros y ffôn neu wyneb yn wyneb, rhaid darllen yr wybodaeth i'r teithiwr drwy sgript neu drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth a'r gofyniad i ynysu, yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r wybodaeth ragnodedig hon yn ystod y cam archebu, mae pobl mewn sefyllfa well i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt yn dymuno teithio i Gymru.

b) Cofrestru (check in)

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn ei gwneud yn ofynnol i'r un wybodaeth wedi'i sgriptio gael ei darparu i deithwyr wrth gofrestru ag a ddefnyddir wrth archebu. (Yn yr un modd ag wrth archebu, yn flaenorol ni ragnodwyd union eiriad yr wybodaeth hon ond fe'i gadawyd i'r gweithredwr benderfynu). Rhaid darparu'r wybodaeth cyn cwblhau’r broses gofrestru.

Pan fydd y broses gofrestru yn cael ei gwneud yn ddigidol, bydd yr wybodaeth hon yn cynnwys dolenni i'r tudalennau gwe canlynol:

i. www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk;
ii. www.gov.uk/uk-border-control;
iii. www.llyw.cymru/eithriadau-rhag-hunanynysu-coronafeirws-covid-19-html

Ar gyfer teithwyr sy'n cofrestru yn y maes awyr neu'r porthladd, rhaid i weithredwyr ddarparu'r wybodaeth ar lafar drwy sgript, neu drwy hysbysiad ysgrifenedig sy'n nodi'r gofyniad i ddarparu gwybodaeth a'r gofyniad i ynysu, yn unol â Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) 2020.

Mae angen y drydedd ddolen www.llyw.cymru/eithriadau-rhag-hunanynysu-coronafeirws-covid-19-html wrth gofrestru i gyfeirio teithwyr - a fydd yn agosáu at eu dyddiad teithio – at yr wybodaeth ddiweddaraf am “Goridorau Teithio”, a phwy sydd wedi’i eithrio o’r gofynion i hunanynysu.

Yn yr un modd ag yn ystod y cam archebu, bydd dolenni amlwg i gyngor iechyd cyhoeddus ar gyfer pob gwlad y DU ar www.gov.uk/uk-border-control. I Gymru, bydd hwn yn ddolen i www.llyw.cymru/coronafeirws.

Mae'n debygol y bydd oedi rhwng y camau archebu a chofrestru, lle gallai canllawiau'r Llywodraeth newid. Drwy ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu'r wybodaeth ragnodedig wrth gofrestru, gall pobl wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a ydynt, yng ngoleuni unrhyw newidiadau, yn dal yn dymuno teithio i Gymru.

Gall y rhai nad ydynt yn gallu cydymffurfio â chanllawiau'r llywodraeth neu sy'n amharod i gydymffurfio â nhw ddewis peidio â theithio.

c. Hysbysiad cyn gadael

Mae'r Rheoliadau Diwygio yn gosod gofyniad newydd ar weithredwyr i ddarparu gwybodaeth i deithwyr rhwng 24 a 48 awr cyn iddynt adael. Darperir yr wybodaeth y mae'n rhaid i'r neges hon ei chynnwys yn y darpariaethau a fewnosodir yn y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr gan y Rheoliadau Diwygio, ac mae'n cynnwys dolen at www.gov.uk/provide-journey-contact-details-before-travel-uk

Rhaid i weithredwyr gysylltu â theithwyr i ddarparu'r wybodaeth hon drwy un o'r dulliau canlynol: e-bost, neges SMS, hysbysiad pwyso ap, neu alwad ffôn.

d. Tra bo teithwyr ar yr awyren neu'r fferi.

Mae'r datganiad y mae'n rhaid ei gyflwyno i deithwyr yn ystod eu taith i Gymru yn cael ei ddiweddaru i egluro, ymhlith materion eraill, fod yn rhaid i deithwyr lenwi Ffurflen Lleoli Teithwyr ni waeth o ble y maent yn cyrraedd. Mae'r gofyniad i hunanynysu oni bai bod esemptiad hefyd yn cael ei symud i ddechrau'r datganiad, er mwyn rhoi mwy o bwyslais arno.

Ystyrir bod y datganiad hwn ar fwrdd yr awyren neu'r fferi yn hanfodol, oherwydd gellir cymryd archebion, a gall gwasanaethau cofrestru gael eu rheoli, gan drydydd partïon (asiantau teithio, cyfryngwyr), yn hytrach na gan weithredwyr yn uniongyrchol. Er mai'r nod yw darparu gwybodaeth i bob teithiwr yn ystod y camau archebu a chofrestru, ni ellir gwarantu hyn. Er mwyn sicrhau bod pawb sy'n teithio i Gymru wedi cael y canllawiau, mae felly'n angenrheidiol i weithredwyr eu darparu iddynt tra byddant ar fwrdd yr awyren neu'r fferi ac yn ystod eu taith.

## 5. Ymgynghoriad

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol yn sgil y coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd cyhoeddus brys, ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

## 6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Yn dilyn cod asesu effaith rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ar gyfer is-ddeddfwriaeth, mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o'r ymateb i bandemig parhaus COVID-19 ac mae angen eu rhoi ar waith ar frys. Felly, nid oes Asesiad Effaith Rheoleiddiol wedi'i baratoi.

Fodd bynnag, mae asesiad cychwynnol yn dangos bod effaith y Rheoliadau Diwygio ar weithredwyr yn isel.

Bydd rhai costau ymgyfarwyddo, ond gan fod y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr ddarparu gwybodaeth i deithwyr (ond yn ôl eu disgresiwn eu hunain o ran sut y darperir yr wybodaeth hon wrth archebu a chofrestru) disgwylir i'r costau hyn fod yn isel.

Er y bydd costau ychwanegol i ddiwygio systemau a phrosesau er mwyn darparu'r testun a'r awgrymiadau penodol sy'n ofynnol gan y darpariaethau a fewnosodir yn y Rheoliadau Gwybodaeth i Deithwyr gan y Rheoliadau Diwygio, mae gan weithredwyr systemau eisoes ar waith i ddarparu gwybodaeth i deithwyr wrth archebu ac wrth gofrestru, cyn gadael, ac yn ystod y camau ar fwrdd y cerbyd yn ystod taith y teithwyr. Felly, disgwylir i gostau diwygio systemau a phrosesau presennol fod yn isel.

Nid yw'n bosibl priodoli unrhyw fudd penodol o'r polisi yn uniongyrchol i ganlyniad iechyd y cyhoedd, gan fod y mesurau hyn yn gyfrwng i gyfathrebu a galluogi mesurau iechyd eraill drwy sicrhau bod teithwyr yn ymwybodol o'r gofynion diweddaraf o ran iechyd y cyhoedd a theithio. Heb y newidiadau i wybodaeth teithwyr a wneir gan y Rheoliadau Diwygio hyn, efallai na fydd manteision llawn y gofynion hyn yn cael eu gwireddu. Felly, disgwylir i'r Rheoliadau hyn helpu i leihau'r broses o drosglwyddo COVID-19.